



Trefniadau wrth gefn Sgiliau Hanfodol Cymru

Y dull i'w ddefnyddio gan bob corff dyfarnu

Dysgwyr sydd i fod i gwblhau eu cymwysterau cyn 31 Gorffennaf 2020

1. Bydd dysgwyr sydd i fod i sefyll asesiadau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru cyn diwedd Gorffennaf 2020 yn derbyn canlyniad wedi ei gyfrifo.
2. Dyfernir y cymhwyster i ddysgwyr sydd wedi pasio un ai tasg dan reolaeth (sydd wedi cael sicrwydd ansawdd allanol) neu brawf cadarnhau cyn 20 Mawrth 2020.
3. Bydd dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau un ai tasg dan reolaeth neu brawf cadarnhau cyn 20 Mawrth 2020, ac sydd i fod i gwblhau eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru rhwng Mawrth a diwedd Gorffennaf 2020 yn derbyn canlyniad wedi ei gyfrifo.

Ailsefyll

4. Dysgwyr nad ydynt yn pasio'r cymhwyster yn seiliedig ar ganlyniad sydd wedi cael ei gyfrifo:
 - a. Cymhwyso Sgiliau Rhif Hanfodol a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (lefelau 1-3): bydd cyfle i sefyll y prawf cadarnhau er mwyn pasio pan fo'r canolfannau'n ailagor. Ni fydd rhaid iddyn nhw gwblhau'r dasg o dan reolaeth. Bydd y cyfle hwn ar gael tan 30 Tachwedd 2020.
 - b. Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol a Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol (pob lefel): cyfle i sefyll y prawf cadarnhau er mwyn pasio pan fo'r canolfannau'n ailagor. Ni fydd rhaid iddyn nhw gwblhau'r drafodaeth gadarnhau strwythuredig. Bydd y cyfle hwn ar gael tan 30 Tachwedd 2020.



Dysgwyr sydd i fod i gwblhau eu cymwysterau rhwng 1 Awst 2020 a 30 Tachwedd 2020

5. Dysgwyr sydd i fod i gwblhau eu cymwysterau rhwng 1 Awst a 30 Tachwedd 2020:
 - a. Cymhwyso Sgiliau Rhif Hanfodol a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (lefelau 1-3): dim ond cwblhau'r prawf cadarnhau yn llwyddiannus sydd angen er mwyn gallu derbyn y cymhwyster.
 - b. Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol a Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol (pob lefel): dim ond cwblhau'r dasg dan reolaeth yn llwyddiannus sydd angen er mwyn gallu derbyn y cymhwyster.

Rôl y ganolfan

6. Mae'n rhaid i ganolfannau ddarparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani i'r cyrff dyfarnu er mwyn derbyn canlyniad sydd wedi cael ei gyfrifo.
7. Dylai canolfannau sicrhau bod y data a gyflwynwir yn fanwl gywir ac y caiff ei gynhyrchu yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y corff dyfarnu.
8. Dylai amcan y ganolfan fod yn seiliedig ar gyflawniad pob dysgwr dros gyfnod yr astudio ac yn ddyfarniad realistig o ddeilliant tebygol pob dysgwr petaent wedi sefyll eu hasesiad yn yr haf.
9. Dylai canolfannau ddarparu addysg, cymorth ac asesu ffurfiannol priodol ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau rhwng 1 Awst 2020 a 30 Tachwedd 2020 er mwyn sicrhau eu bod wedi ymdrin â chynnwys y cwrs a'u bod yn hollol barod ar gyfer yr asesiad perthnasol.
10. Gall cyrff dyfarnu ymchwilio i unrhyw ymdrechion i danseilio'r system hon y gellir eu hystyried yn dwyll.